# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 14 Mai 2013 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans (Cadeirydd), Julian Thompson-Hill, Eryl Williams, Bobby Feeley, Hugh Irving, Huw Jones, Barbara Smith a/ac David Smith

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cwsmeriaid (HW), Moderneiddio a Lles (SE); Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (RGW); Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg (JW); Rheolwr Rhaglen, Moderneiddio Addysg (JC); Prif Gyfrifydd (RW), a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

Roedd Carole Burgess, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Esgobaeth Llanelwy (Anglicanaidd); Rita Price, Cyfarwyddwr Addysg a John Kenworthy, Esgobaeth Gatholig Wrecsam ynghyd â Philip Eyton-Jones, Cadeirydd Ymddiriedolwyr, Ymddiriedolaeth Santes Ffraid hefyd yn bresennol ar gyfer yr eitem ar Ddarpariaeth Ffydd (Rhif 5 ar y Rhaglen)

## CROESO

Estynnodd yr arweinydd groeso cynnes i aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol i glywed y drafodaeth am gynigion am ddarpariaeth ffydd. Cyflwynwyd cynrychiolwyr o'r Awdurdodau Esgobaethol ac Ymddiriedolaeth Santes Ffraid.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd cysylltiad personol na rhagfarnllyd gan unrhyw un.

## 3 MATERION BRYS

Dim mater brys wedi'i godi.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2013.

***PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2013 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 DARPARIAETH YN SEILIEDIG AR FFYDD

[Datganodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler gysylltiad personol â’r eitem hon.]

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg, yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Cabinet am ganfyddiadau'r ymgynghoriad anffurfiol cychwynnol ar ddyfodol addysg ffydd, a cheisio cymeradwyaeth i ddechrau’r cam ffurfiol nesaf o ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i gau Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol Santes Ffraid ac agor ysgol ffydd newydd ar y cyd. Cyflwynwyd ymateb ffurfiol i’r cynigion gan yr Awdurdodau Esgobaethol ac Ymddiriedolaeth y Santes Ffraid yn y cyfarfod a gwahoddwyd cynrychiolwyr i roi cyflwyniad byr.

Rhoddodd y Cynghorydd Williams rywfaint o gefndir i’r sefyllfa a thynnodd sylw at yr angen am ddull gweithredu strategol a chydlynol sy’n ystyried polisïau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau buddsoddiad a sicrhau darpariaeth addysg o safon. Cyfeiriodd at y camau yn y broses adolygu gan ddweud bod angen gwneud penderfyniadau anodd er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ac addysg o safon yn y dyfodol. Ymatebodd y Cynghorydd Williams i bryderon a godwyd gan Ymddiriedolaeth Santes Ffraid yn eu hymateb ffurfiol gan ddweud bod cynllun cyllideb cynhwysfawr wedi’i baratoi i sicrhau bod modd gwireddu dyheadau a bod cyllidebau wedi’u neilltuo i gyflawni cynigion. Rhoddodd sicrwydd hefyd ynghylch y galw am ysgol newydd gan sôn am y dadansoddiad manwl a gynhaliwyd yn hynny o beth a rhagamcaniadau ar gyfer y dyfodol.

Gwahoddodd yr Arweinydd gynrychiolwyr a oedd yn bresennol o’r Awdurdodau Esgobaethol ac Ymddiriedolaeth Santes Ffraid i roi cyflwyniad byr.

Mynegodd Carole Burgess o Esgobaeth Llanelwy ei boddhad o fod yn rhan o syniad mor gyffrous a chadarnhaodd fod Bwrdd ac Esgobaeth Llanelwy yn dal i fod yn gwbl ymrwymedig fel cyd-hyrwyddwyr i’r cynnig am ysgol uwchradd ffydd newydd ar y cyd.
Wrth groesawu’r cynnig, tynnodd sylw at lwyddiant Ysgol St. Joseph yn Wrecsam sy’n cynnig darpariaeth Anglicanaidd/Gatholig ar y cyd. Adleisiodd Rita Price o Esgobaeth Gatholig Wrecsam y teimladau hynny gan ddweud bod y syniad o ysgol a rennir wedi bod dan drafodaeth ers tro. Roedd Esgobaeth Wrecsam, fel cyd-hyrwyddwr, yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i’r cynnig am ysgol uwchradd a rennir a’i dyheadau am addysg ffydd yn Sir Ddinbych. Tynnodd sylw at yr ymrwymiad i ddarparu ysgol o’r safon uchaf i wella dyheadau i blant a theuluoedd yn yr ardal. Cyfeiriodd John Kenworthy, cyn Bennaeth Ysgol St. Joseph at debygrwydd sylfaenol ag Ysgol Santes Ffraid a soniodd am lwyddiant cyfnod pontio Ysgol St. Joseph i fod yn ysgol ffydd ar y cyd. Gofynnodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill am sicrwydd gan yr Awdurdodau Esgobaethol am eu hymrwymiad yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad a’u cyfraniad ariannol. Cadarnhaodd Carole Burgess a Rita Price eu hymrwymiad i ymgynghoriad ffurfiol ar y cynigion a byddent yn ymateb mor gadarnhaol ag y gallent i ganlyniad yr ymgynghoriad. Nodwyd mai cyfraniad bach fyddai ar gael gan Esgobaeth Llanelwy a bod Esgobaeth Wrecsam wedi ymrwymo unrhyw sicrwydd pellach a gafwyd o werthu rhan o safle’r Rhyl. Eglurodd y Cynghorydd Williams nad oedd y cynigion yn dibynnu ar unrhyw gyfraniadau ariannol a bod cyllid wedi’i neilltuo at y diben hwnnw.

Cyfeiriodd Mr Philip Eyton-Jones o Ymddiriedolaeth Santes Ffraid at lwyddiant Ysgol Santes Ffraid wrth gynnig darpariaeth barhaus i blant rhwng 3 ac 19 oed a thynnodd sylw at y gefnogaeth a gafwyd gan rieni i'r ysgol fel a ddangoswyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad a'u hawydd i weld yr ethos a'r fframwaith presennol yn aros.

Roedd yr Ymddiriedolaeth o'r farn fod y cynnig yn gynamserol o ystyried bod yr arfarniad o'r dewis yn ddiffygiol o ran manylion sylweddol, felly ni fyddai'r Ymddiriedolaeth yn gallu hybu'r cynnig ar ei ffurf bresennol. Mynegwyd pryderon penodol ynghylch absenoldeb penderfyniadau cadarn o ran ystod oedran a lleoliad yr ysgol; goblygiadau Ysgol Uwchradd y Rhyl sydd newydd ei hailwampio, a diffyg sicrwydd ariannol a'r sefyllfa ansefydlog i ddisgyblion a staff. Byddai angen i'r Ymddiriedolaeth a'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo unrhyw gyfraniad ariannol ar gyfer cynigion y dyfodol.

Gofynnodd yr Arweinydd am sicrwydd ynghylch agweddau addysgol y cynigion a thynnodd Pennaeth Addysg sylw at flaenoriaeth y Cyngor o ran sicrhau bod pob plentyn yn cael yr addysg orau bosibl ac yn perfformio hyd gorau ei allu. Soniodd am elfennau allweddol o ddarpariaeth addysg lwyddiannus a gydnabuwyd gan Lywodraeth Cymru ac ESTYN ac roedd y ddwy ysgol wedi'u dadansoddi yn y cyd-destun hwnnw.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod y ddwy ysgol wedi cael canlyniadau da yn erbyn dangosyddion allweddol a darparodd y Pennaeth Addysg nifer o ystadegau i ddangos perfformiad y ddwy ysgol ar gamau penodol ac o'u cymharu ag ysgolion eraill yn y sir ac yn eu grwpiau teulu. Fodd bynnag, roedd yn bwysig sicrhau cynaliadwyedd wrth symud ymlaen ac roedd rhai diffygion mewn elfennau allweddol wedi'u nodi a fyddai'n peryglu cyrhaeddiad yn y dyfodol yn enwedig o ran yr amgylchedd dysgu ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, soniodd aelodau'r Cabinet am eu hymweliadau â'r ddwy ysgol gan fynegi pryderon difrifol ynghylch digonolrwydd adeiladau a chyfleusterau presennol yr ysgolion nad oeddent yn darparu amgylchedd dysgu addas i'r diben i fodloni gofynion Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Cytunwyd mai darparu addysg gynaliadwy o ansawdd uchel yn y dyfodol oedd yr ystyriaeth bwysicaf.

Yn sgil y pryderon a fynegwyd gan Ymddiriedolaeth Santes Ffraid, gofynnodd yr aelodau gwestiynau am y broses adolygu a'r goblygiadau ehangach gan geisio sicrwydd ynghylch pa mor gadarn yw'r pecyn ariannu.

Ymatebodd y Cynghorydd Eryl Williams a swyddogion fel hyn -

- darparwyd sicrwydd y byddai'r Cyngor mewn sefyllfa i gyllido'r prosiect nad oedd yn dibynnu ar gyfraniadau ariannol gan bartneriaid
- eglurwyd na fu'n bosibl ymrwymo i leoliad ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig ar hyn o bryd gan nad oedd gofynion yr ysgol wedi'u datblygu'n llawn a bod hyn yn dibynnu ar ganlyniad ymgynghoriad ffurfiol
- nid oedd yr adolygiad o'r ddwy ysgol yn cael ei gynnal ar wahân ac roedd ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r goblygiadau ar ysgolion eraill yn yr ardal
- byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnig darpariaeth gynradd yn ystod yr ail gam
- byddai'r manylion pellach y gofynnwyd amdanynt gan Ymddiriedolaeth Santes Ffraid yn cael eu darparu yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol yn ystod cam nesaf y broses

- byddai darpariaeth ôl-16 yn yr ysgol newydd yn cael ei chynnig yn bennaf gan bartneriaeth chweched presennol Prestatyn a'r Rhyl a byddai'r ysgol newydd yn cynnig ystod fach o gyrsiau fel rhan o'r bartneriaeth honno a ddarperir gan y darparwyr ffydd
- roedd gan y Cyngor y pŵer i gynnig cau'r ddwy ysgol ond ni allai agor ysgol ffydd newydd ar y cyd heb gytundeb yr Awdurdodau Esgobaethol
- byddai peidio â gwneud penderfyniad ar y cynigion yn arwain at ansicrwydd pellach ac ansefydlogrwydd i'r ysgolion a byddai'n rhoi darpariaeth a chyfleoedd cyllido'r dyfodol dan fygythiad.

Ystyriodd y Cabinet yr ystod oedran ar gyfer yr ysgol newydd a rhinweddau darpariaeth 3 - 18 a chytunodd y dylid ymgynghori ymhellach i edrych ar y posibilrwydd o gynnig darpariaeth gynradd ar yr un safle â'r ysgol uwchradd ffydd ar y cyd y dylid ei gynnwys fel rhan o'r cynnig ffurfiol ynghyd ag ymgynghoriad ar leoliad yr ysgol ffydd newydd ar y cyd.

Ar y cam hwn, gwahoddodd yr Arweinydd gynghorwyr eraill nad oeddent yn aelodau'r Cabinet i siarad.  Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau a godwyd gan Aelodau lleol y Rhyl, y Cynghorwyr Joan Butterfield, Margaret McCarroll a Brian Blakeley, cafwyd yr ymatebion canlynol -

- gellid ymestyn y cyfnod ymgynghori os oes angen
- byddai aelodau lleol yn rhan o'r broses ymgynghori a byddai'r Cabinet yn gwneud y penderfyniad fel swyddogaeth weithredol
- roedd y Pwyllgor Archwilio wedi archwilio proses arolygu ysgolion eisoes a hwn oedd y fforwm priodol i edrych ar faterion o'r fath
- rhaid defnyddio'r geiriad statudol ar gyfer cau ysgolion ond cytunwyd i ail-eirio cyhoeddiadau yn y dyfodol i bwysleisio'r effaith gadarnhaol
- adroddwyd am y cyfyngiadau amser a'r meini prawf cyllido yn ystod y cais cychwynnol i Lywodraeth Cymru (LlC) ar sail darpariaeth 11 – 16 gyda newidiadau yn amodol ar ymgynghoriad a thrafodaeth bellach â swyddogion LlC
- cadarnhawyd bod gwaith yn barhaus â'r Esgobaeth Gatholig i hybu Ysgol Mair, y Rhyl â'r bwriad o gynyddu niferoedd disgyblion ac nid oedd cynlluniau i gau'r ysgol honno
- nodwyd pryderon aelodau o ran cludiant i ddisgyblion i'r ysgol newydd arfaethedig a dywedwyd y byddai angen ystyried y mater ymhellach pan fyddai'r lleoliad wedi'i gadarnhau.

Tynnodd y Cynghorydd Ray Bartley sylw at y canlyniadau economaidd pe bai Ysgol Santes Ffraid yn cau a mynegodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler ei dewis i'r ysgol aros yn Ninbych hefyd.  Pwysleisiodd y Cynghorydd Richard Davies yr angen i nodi lleoliad safle'r ysgol newydd cyn gynted ag sy'n bosibl.  Dywedwyd wrth yr aelodau fod tua 62% o ddisgyblion o'r ddwy ysgol yn byw yng ngogledd y sir a chadarnhaodd y byddai'r ysgol newydd yn y Cynllun Datblygu Lleol ac yn destun amodau cynllunio ffurfiol.

Cynigiodd y Cynghorydd Eryl Williams yr argymhellion yn yr adroddiad gyda diwygiad i'r geiriad ac o'r drafodaeth, cynigiodd bod ymgynghoriad yn digwydd dim hwyrach na haf 2015 i nodi'r safle ar gyfer yr ysgol ffydd newydd ar y cyd, a bod

ymgynghoriad pellach yn digwydd i edrych ar y posibilrwydd o gynnig darpariaeth gynradd ar yr un safle â'r ysgol uwchradd ffydd ar y cyd. Cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill ddiwygiad, ac eiliodd y Cynghorydd Hugh Irving, sef bod ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal i edrych ar y posibilrwydd o gynnig darpariaeth gynradd Gatholig Rufeinig ar yr un safle. Ar ôl pleidleisio, COLLWYD y diwygiad a DERBYNIWYD y cynnig gwreiddiol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*

*(a)* *yn nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad;*

*b)* *yn cymeradwyo'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cynigion i gau Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol Santes Ffraid o 31 Awst 2014 er mwyn hwyluso sefydlu ysgol ffydd newydd yn unol â'r penderfyniad canlynol;*

*(c)* *yn cymeradwyo ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer agor ysgol newydd o 1 Medi 2014 mewn partneriaeth ag Awdurdodau Esgobaethol yr Eglwys Gatholig ac Eglwys yng Nghymru;*

*(d)* *yn cytuno bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal dim hwyrach na haf 2015 i nodi'r safle lle byddai'r ysgol ffydd newydd ar y cyd, ac*

*(e)* *yn cynnal ymgynghoriad pellach i archwilio'r posibilrwydd o gynnig darpariaeth gynradd ar yr un safle â'r ysgol uwchradd ffydd ar y cyd*
**[JW i weithredu]**

Ar y pwynt hwn (11.35 a.m.) cymerodd y Cabinet egwyl.

## 6 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni. Rhoddodd grynodeb byr o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- nid oedd amrywiant gwasanaeth i'w adrodd yn y cam cynnar hwn yn y flwyddyn ariannol
- roedd £514k (17%) o arbedion y cytunwyd arnynt wedi'u sicrhau hyd yma
- cyfanswm y gyllideb net i ysgolion oedd £68.3m - yn yr elfen heb ei dirprwyo, roedd cyfrifoldeb am ddarpariaethau clwb brecwast wedi'i drosglwyddo o grant penodol i Grant Cynnal Refeniw y Cyngor gan arwain at gyllid ychwanegol o tua £150k a fyddai'n cael ei ddefnyddio i gyfrannu at ddarparu sicrwydd i ysgolion y mae'r adolygiad diweddar o'r fformwla cyllido wedi effeithio'n andwyol arnynt
- roedd y Cyfrif Refeniw Tai yn dal i fod ar ei darged, ac
- roedd yn darparu manylion am y Cynllun Cyfalaf gan gynnwys y gwariant a gynlluniwyd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol.

Cymerodd yr aelodau'r cyfle i ofyn cwestiynau a chawsant yr ymatebion canlynol -

- dylid cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn diwedd 2013/14.

- dim ond ar gyfer darparu gwasanaethau tai y cyngor y gellid defnyddio cyllid o'r Cyfrif Refeniw Tai
- roedd arolwg cyflawn o stoc tai wedi'i gwblhau y flwyddyn flaenorol ac roedd rhaglen dreigl fuddsoddi hirdymor ar waith
- roedd cydnabyddiaeth yn y Gwasanaethau Amgylcheddol wrth gytuno ar yr arbedion, bod angen cyllido rhai pwysau hefyd
- byddai arbedion a oedd yn gysylltiedig â throsi defnyddwyr car hanfodol yn ddefnyddwyr achlysurol yn cael eu darparu yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol ond roedd pwysau wedi'i nodi ar gyfer y flwyddyn nesaf
- mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd Meirick Davies ynghylch effaith y dreth ystafelloedd gwely ac ailgartrefu tenantiaid, awgrymodd yr Arweinydd fod y mater yn cael ei gyfeirio at y pwyllgor archwilio priodol i'w ystyried
- eglurwyd y dyraniad treigl o £1m i gynlluniau dros dro yn y Cynllun Cyfalaf
- byddai eglurhad manwl o'r Cynllun Corfforaethol gan gynnwys defnydd adnoddau a chynlluniau cyllido yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a byddai mwy o fanylder ynghylch yr elfennau hynny yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau cyllid yn y dyfodol i'r Cabinet.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru i gronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol a goblygiadau posibl i Sir Ddinbych o ran ei strategaeth i adeiladu cronfa wrth gefn i gyllido'r Cynllun Corfforaethol. Roedd yn bwysig bod rhinweddau'r strategaeth hon yn llywio'r drafodaeth ar lefelau priodol ar gyfer cronfeydd wrth gefn. Ychwanegodd y Cynghorydd Thompson-Hill y dylid gwahaniaethu rhwng cronfeydd wrth gefn amhenodol a darpariaethau a neilltuwyd at ddiben penodol.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.*

## 7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w ystyried. Gofynnodd yr Aelodau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i aildrefnu rhai eitemau ar y rhaglen gwaith ar gyfer mis Mehefin o ystyried faint o faterion oedd i'w trafod ac os oes angen, dylid paratoi ar gyfer cyfarfod diwrnod cyfan. Cytunwyd symud yr adolygiad o Grŵp Llywio'r CDLl o'r rhaglen honno a'i gynnwys yn adroddiad y CDLl i'r Cyngor yn lle hynny. Cytunwyd hefyd cynnwys Darpariaeth Ffydd fel eitem ar y rhaglen gwaith ar gyfer 24 Medi.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

## Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 ac 15 Rhan 4 Atodlen 12A Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 8 TRAWSNEWID CLUDIANT – PROSIECT CYDWEITHREDOL RHANBARTHOL CLUDIANT TEITHWYR

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus yr adroddiad cyfrinachol yn ceisio cytundeb y Cabinet i ddatblygu Achos Busnes Llawn ar gyfer gweithredu uned integredig unigol yn raddol i ddarparu gwasanaethau cludiant teithwyr yng Ngogledd Cymru.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ers tro ar lefel ranbarthol ar yr opsiynau dros gyfuno gwasanaethau Cludiant Teithwyr ar draws cynghorau Gogledd Cymru. Roedd manylion am gwmpas y prosiect; arfarnu opsiynau a therfynau amser wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a gwnaed cyfeiriad penodol at y dewis a argymhellir a'r rhesymau dros hynny. Ychwanegodd y Cynghorydd Smith fod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau wedi ystyried yr Achos Busnes Amlinellol a'r dewis a argymhellir a'u bod yn fodlon gweld y cynigion yn datblygu i gam nesaf yr ymchwiliad a chael adroddiadau cynnydd rheolaidd ar ddatblygiad yr Achos Busnes Llawn.

Wrth drafod yr adroddiad, gofynnwyd am sicrwydd ynghylch cyllid a threfniadau llywodraethu a dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'r elfennau hynny'n cael eu hymchwilio'n llawn wrth i'r Achos Busnes Llawn ddatblygu. Darparwyd manylion am y toriadau mewn grantiau cyllido bysiau ynghyd â newidiadau arfaethedig i'r system cyllido bysiau a oedd yn ffactor wrth ddewis y Dewis a Ffefrir. o ran atebolrwydd ac ymatebolrwydd lleol, cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y model a fabwysiadwyd ar gyfer cydweithredu rhanbarthol gan gyfeirio at y Cydbwyllgor fel fforwm lle byddai Sir Ddinbych yn dylanwadu.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet -

*(a)* *yn nodi'r Achos Busnes Amlinellol, yn derbyn y Dewis a Ffefrir ac yn cytuno bod y prosiect yn symud i ddatblygu Achos Busnes Llawn ar gyfer gweithredu un uned integredig ar gyfer darparu gwasanaethau cludiant teithwyr yng Ngogledd Cymru, a*

*b)* *yn nodi na fyddai unrhyw benderfyniad i weithredu uned integredig yn digwydd hyd nes bo'r Cynghorau wedi rhoi ystyriaeth i'r Achos Busnes Llawn a'i gymeradwyo, ac y byddai trefniadau llywodraethu at y dyfodol yn cael sylw yn ystod cyfnod datblygu'r Achos Busnes Llawn.*
*[RM i weithredu]*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35 pm.